"Dyma ni'n mynd i fyny i Jerwsalem; fe gaiff Mab y Dyn ei draddodi i'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion; condemniant ef i farwolaeth, a'i drosglwyddo i'r Cenhedloedd; a gwatwarant ef, a phoeri arno a'i fflangellu a'i ladd, ac wedi tridiau fe atgyfoda." **(Marc 10: 33-34)**

Mae'r rhain yn eiriau rhyfeddol sydd yn dangos faint roedd Iesu'n gwybod am y dioddefaint oedd o'i flaen. Mae ei benderfyniad i fynd ymlaen i Jerwsalem yn dangos dyfnder ei gariad tuag atom.

Y Bugail yn arwain

Ar ddechrau'r paragraff, darllenwn fod Iesu a'i ddilynwyr ar eu ffordd i Jerwsalem. Dywed Marc fod 'arswyd' ar y deuddeg. Mae nifer o gyfieithiadau Saesneg yn defnyddio'r gair 'amazed'. Mae'n debyg bod gwreiddyn y gair Groeg yn golygu 'peri i rywun sefyll yn stond'.

Y rheswm am eu rhyfeddod a'u harswyd oedd fod Iesu yn eu harwain ar y blaen tuag at holl drafferthion Jerwsalem. Mae'n siŵr fod rhyw benderfyniad yn ei lygaid ac yn ei osgo. Mae Luc yn mynegi hyn yn glir: **"troes ef ei wyneb i fynd i Jerwsalem"** (Luc 9.51).

Mae'r dilynwyr sy'n perthyn i gylch ehangach ei ddisgyblion yn llawn ofn, a does dim syndod yn hynny o gofio'r gwrthdaro rhwng Iesu a'r prif arweinwyr Iddewig.

Dyma ddarlun gwych o'r Bugail Da yn arwain ei ddiadell o'r blaen, wrth i yntau fynd i roi ei einioes drostynt hwy a'i braidd byd-eang.

Proffwydoliaeth mewn preifat

Yna, am y trydydd tro, mae Iesu'n cymryd y deuddeg i'r naill ochr i ragfynegi'r hyn sydd yn ei aros yn y ddinas sanctaidd. Mae'n siŵr ei fod yn gwneud hyn rhag i'r dyrfa godi mewn protest neu godi arfau i'w amddiffyn, neu ei orfodi i droi'n ôl ac osgoi'r argyfwng yn gyfan gwbl; ond roedd hyn ar ei feddwl ers y temtiad yn yr anialwch. Gwrthododd gymryd ffordd osgoi y groes ac addoli Satan er mwyn etifeddu'r ddaear. Roedd yn gwybod yn iawn mai trwy ddioddef y byddai'n etifeddu ei deyrnas. Roedd yr ensyniad y dylai ei arbed ei hun yn ennyn ei ddicter llymaf, hyd yn oed os mai Pedr oedd yn ei fynegi: **"Dos ymaith o'm golwg, Satan; maen tramgwydd ydwyt imi, oherwydd nid ar bethau Duw y mae dy fryd ond ar bethau dynol"** (Math.16:23).

Proffwydoliaeth fanwl

Mae geiriau'r adnodau hyn yn cynnwys manylion o'r hyn ddaeth i wynebu'r Crist adeg y Pasg. Mae nifer o esbonwyr yn amau sut y gallai Iesu wybod y manylion ymlaen llaw, ac maen nhw'n dweud mai'r apostolion glywodd y manylion ar ôl y digwyddiad.

Pam na allwn gredu hyn? Pam na allai'r Un a wyddai am geiniog yng ngheg pysgodyn arbennig wybod am ei dranc ei hun? Pam na allai wybod nifer o fanylion ei ddyfodol os oedd yn gwybod nifer y gwŷr a gawsai'r wraig o Samaria? Pam na allai ragfynegi ei dynged os gallai broffwydo cwymp Jerwsalem? Ar ben hynny, onid oedd newydd siarad â Moses ac Elias ar fynydd y Gweddnewidiad?

Manylion y dioddefaint

Gallwn weld saith manylyn am yr hunllef oedd yn wynebu'r Ceidwad:
Traddodi. Byddai'n cael ei drosglwyddo i'r Sanhedrin, sef uchel lys yr Iddewon, i sefyll ei brawf gerbron arweinwyr ysbrydol y genedl.
Dedfrydu. Byddai'r llys yn ei gondemnio i farwolaeth.
Trosglwyddo. Gan nad oedd y Rhufeiniaid yn caniatáu i'r Iddewon weithredu dedfryd marwolaeth, roedd raid ei gyflwyno i'r Cenhedloedd, sef Peilat a'i filwyr.
Poeri. Byddai milwyr y Cenhedloedd yn ei wawdio a'i ddirmygu trwy boeri arno.
Fflangellu. Mae hyn yn gyfeiriad at y chwipio gyda'r chwip Rufeinig o ledr â darnau o asgwrn neu fetal ar waelod y llinynnau.
Diweddu. Byddai'r chwipio'n arwain yn syth at y croeshoelio.
Atgyfodi. Fel gyda'r rhagfynegiadau eraill, mae Iesu'n gorffen ar nodyn buddugoliaethus yr atgyfodiad.

Fel y gwyddom erbyn hyn, cyflawnwyd pob un o fanylion y broffwydoliaeth, fel nifer o broffwydoliaethau'r Hen Destament hefyd.

Cariad difesur

Roedd y groes yn nesáu at Iesu fel ton anferth oedd yn bygwth ei foddi. Gallai synhwyro'r brad, y rhagrith, y camgyhuddo, y gwawd a'r dirmyg. Mae'n rhaid bod y rhagwybodaeth yma'n faich ychwanegol ar ysgwyddau'r Gwas Dioddefus, er yn gymorth i'w ddisgyblion egwan. Mae'r wybodaeth flaenorol o'i artaith a'i ddyfalbarhad yn wyneb hyn yn datguddio deimensiwn arall o'i gariad aberthol enfawr.
Fedra i ddim cofio faint o weithiau mae rhywun oedd yn dioddef mewn ysbyty neu mewn profedigaeth wedi dweud wrthyf: *"Diolch byth nad ŷm ni'n gwybod beth sydd o'n blaenau!"*

Roedd Duw'r Mab yn gwybod yn nhragwyddoldeb, ac roedd Iesu yn gwybod mwy a mwy wrth i'w fywyd fynd ymlaen. Serch hynny: **"Yr oedd wedi caru'r rhai oedd yn eiddo iddo yn y byd, ac fe'u carodd hyd yr eithaf"** (Ioan 13:1).